**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod**
**Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**16 Mehefin 2021, 10:00**
**Lleoliad: Ystafell 3/7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Kate Eden | (KE) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) (gadawodd am 11:30) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG a Chyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Eleri Davies | (ED) | Pennaeth Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a'r Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (ar gyfer eitem 3.3 yn unig) |
| Beverley Gregory | (BG) | Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau |
| Richard Hayward | (RH) | Rheolwr Cysylltiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio |
| Wayne Jepson | (WP) | Arweinydd Gwasanaeth, Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau |
| John Lawson | (JL) | Prif Swyddog Risg a Phennaeth Rheoli Gwybodaeth |
| Paula Mitchell | (PM) | Hwylusydd Gwella Ansawdd ac Effaith |

| | | |
|---|---|---|
| Chris Orr | (CO) | Pennaeth yr Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd ochr y staff |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Eleri Lloyd-Burns | (ELB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, y Tîm Gweithredol |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a Chyfarwyddwr Meddygol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:00*

**QSIC 26/2021 — Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig o ganlyniad i'r ymateb parhaus i bandemig COVID-19 a'r canllawiau cenedlaethol a oedd mewn grym.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r cofnodion gael elu cytuno yn y cyfarfod canlynol.

**QSIC 27/2021 — Datgan Buddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

**Eitemau Er Sicrwydd**

**QSIC 28/2021 — Adfer y Gwasanaethau Sgrinio – Sesiwn Graffu Fanwl**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan SH yn rhoi diweddariad manwl ynghylch y gwaith o adfer y rhaglen sgrinio (Cyf 3.QSIC.160621).

Eglurodd KE fod y Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ynghylch y rhaglenni sgrinio ers dechrau'r pandemig, ac mai diben y sesiwn graffu fanwl hon oedd canolbwyntio ar y gwaith o adfer ac ailddechrau'r rhaglenni sgrinio.

Crynhodd cyflwyniad SH effaith y pandemig ar y rhaglenni sgrinio:

- Amlinellwyd effaith y pandemig Covid-19 ar bob un o'r rhaglenni sgrinio drwy gymharu lefelau'r gweithgaredd fel llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn 2019/20 hyd at flwyddyn y pandemig 2020/21 ar gyfer pob un o'r rhaglenni, a chynnwys data cymaradwy ar lefelau canfod y cyflyrau a nodwyd.
- Roedd y pandemig wedi effeithio ar y gwaith o sgrinio cyflyrau a nodwyd ar gyfer y rhaglenni sgrinio oedolion oherwydd bod yr holl raglenni sgrinio oedolion wedi'u hatal dros dro ym mis Mawrth 2020; y capasiti is ar ôl ailddechrau'r rhaglenni; a'r niferoedd llai a oedd yn manteisio ar rai rhaglenni;
- Parhawyd â'r rhaglenni sgrinio cynenedigol a newydd-anedig drwy gydol y pandemig oherwydd byddai hyn wedi cael gormod o effaith ar y babanod a'u teuluoedd, a diolch i staff mamolaeth ac awdioleg y byrddau iechyd am hynny;
- Roedd yr ôl-groniad ar gyfer y rhaglenni yn cynyddu o ran tair o'r rhaglenni: Bron Brawf Cymru; Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Sgrinio Ymlediad Aortig Abdomenol (YAA). Roedd y capasiti sgrinio ar gyfer y rhaglenni hyn wedi lleihau ar ôl iddynt ailddechrau oherwydd yr angen i sicrhau llwybrau diogel mewn perthynas â Covid. Byddai angen cynyddu'r capasiti 20% i'r lefelau cyn Covid er mwyn cael gwared ar yr ôl-groniad hwn.
    - **Bron Brawf Cymru**: O gymharu â data o'r flwyddyn cyn y pandemig, roedd gostyngiad o 50% yn nifer yr achosion o ganser y fron a ganfuwyd.
    - **YAA**: Roedd y cyfraddau sgrinio yn is nag arfer yn ystod y pandemig, mae'n debyg oherwydd bod pobl yn gwarchod eu hunain neu'n amharod i fynd i apwyntiadau oherwydd ein bod yn gwahodd dynion 65 oed.
    - **Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru**: Roedd y niferoedd a oedd yn manteisio ar y rhaglen hon wedi gostwng, oherwydd capasiti'r llwybrau diogel mewn perthynas â Covid. Yn ogystal, cydnabuwyd bod y cleifion a oedd yn gwarchod eu hunain yn cynrychioli carfan fawr o'r gronfa ddata cleifion hon oherwydd bod ganddynt ddiabetes neu eu bod mewn oed. Roedd y niferoedd a fanteisiodd ar y gwasanaeth yn sylweddol is.
    - Roedd yr ôl-groniad ar gyfer **Sgrinio Serfigol Cymru** a **Sgrinio Coluddion Cymru** yn gostwng:
    - Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gweithredu y tu hwnt i'r lefelau cyn Covid ar hyn o bryd. O gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, roedd gostyngiad o 32% yn niferoedd y sytoleg gradd uchel a nodwyd.
    - Ar gyfer Sgrinio Coluddion Cymru, bu cynnydd yn nifer y bobl a sgriniwyd ar ôl Covid; o gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, bu

gostyngiad o 20% yn nifer yr achosion o ganser y coluddyn a ganfuwyd.

Yna crynhodd SH y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag adfer y rhaglenni sgrinio:

- Byddai'r gwaith adfer yn cymryd amser sylweddol a byddai angen gweithgaredd ychwanegol uwchlaw'r lefelau arferol; roedd yr isadran yn gweithio i sicrhau bod pob dim posibl yn cael ei wneud o fewn yr isadran i gefnogi'r gwaith hwn;
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau lleoliadau ychwanegol sy'n ddiogel mewn perthynas â Covid lle bo hynny'n bosibl, er mwyn cynyddu'r capasiti sgrinio.
- Roedd angen cefnogaeth gan y Byrddau Iechyd i alluogi'r gwaith adfer, er enghraifft o ran darparu lleoliadau ac apwyntiadau amserol am archwiliad colonosgopi.
- Ar sail lefelau cyfredol y gwasanaethau, amlinellodd SH yr amser adfer amcangyfrifiedig ar gyfer pob rhaglen sgrinio a'r camau arfaethedig i gyflawni hyn, gan gynnwys:
    - Capasiti sgrinio ychwanegol i atal hyd cyflawn yr ôl-groniad rhag cynyddu rhagor;
    - Gwneud y gorau o'r gweithgaredd ychwanegol ar y penwythnos;
    - Opsiynau i ddarparu capasiti staffio ychwanegol ac i alluogi'r staff presennol i weithio oriau ychwanegol;
    - Cynyddu nifer y lleoliadau clinig neu wella effeithlonrwydd y lleoliadau presennol.
    - Dulliau ymarfer wedi'u moderneiddio i wella'r effeithlonrwydd, fel y defnydd o wahoddiadau agored i apwyntiadau er mwyn lleihau nifer y rhai nad ydynt yn mynychu apwyntiadau.

Diolchodd KE i SH am y cyflwyniad manwl a gwahoddodd gwestiynau gan y Pwyllgor.

Ystyriodd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- Cadarnhad bod cyfleoedd i ddefnyddio Adrannau Optometreg neu wasanaethau Optometreg lleol i gynyddu'r capasiti ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cael eu hadolygu a'u hystyried; nodwyd y byddai angen cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer hyn.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y defnydd o'r cyllid disgwyliedig ar gyfer lleoliadau ychwanegol, cadarnhaodd SH fod arian yn cael ei ailddyrannu'n fewnol i alluogi'r defnydd o leoliadau yn y tymor byr;
- O ran darparu ar gyfer llesiant y staff, sicrhaodd SH y Pwyllgor bod llesiant y staff yn flaenoriaeth fawr i'r isadran ac y byddai angen cydbwyso'r cynllun adfer er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy a bod y staff yn gweithio'n gynaliadwy. Roedd y cynllun adfer yn cynnwys staff ychwanegol, a fyddai'n allweddol i'r cynllun.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch sut y gellid cynyddu nifer y bobl sy’n cael eu sgrinio gan y rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru o gofio’r effaith y mae gorfod gwarchod eu hunain wedi’i chael ar y niferoedd sy’n mynychu’r clinigau, eglurodd SH bod camau’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â hyn: y cyhoeddusrwydd ychwanegol a gafwyd drwy sefydliadau partner; canfod lleoliadau lleol i sefydlu clinigau; brysbennu cyfranogwyr sydd a oedd yn cyflwyno’r cyfle i egluro mesurau diogelu rhag Covid.
- O ran a ellid hyfforddi staff sgrinio ar draws nifer o wasanaethau, nododd SH yr awgrym hwn ac eglurodd bod sgrinwyr YAA wedi cefnogi’r rhaglen sgrinio clyw babanod newydd-anedig yn ystod y don gyntaf.
- O ran effaith y gostyngiad yn y niferoedd sy’n cael eu hatgyfeirio, eglurodd SH bod hwn yn rheswm allweddol dros weld y Gwasanaethau Sgrinio yn canolbwyntio ar adfer cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau’r effaith hirdymor ar y rhaglen.

Diolchodd KE i SH am y cyflwyniad cynhwysfawr ac am yr eglurhad clir ynghylch sut y mae’r gwasanaeth yn adfer mewn ffordd newydd ac arloesol.

Nododd KE fod SG wedi cyflwyno dau gwestiwn i’r pwyllgor cyn iddi adael:

- ‘A oes ffordd y gallwn gyfleu effaith niweidiol COVID-19 fel cyfradd fesul 100,000, a’r heriau rydym yn eu hwynebu wedyn i gau’r bwlch?
- A oes unrhyw Gymunedau penodol sydd wedi’u heffeithio’n andwyol?’

Cytunodd y Pwyllgor y dylid gofyn am ymateb ysgrifenedig i’r cwestiynau hyn gan SH a fyddai’n cael ei rannu ar ôl y cyfarfod.
**Camau gweithredu: LB**

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymryd sicrwydd** bod y gwaith o ailddechrau ac adfer y Gwasanaethau Sgrinio wedi’i strwythuro’n dda; a
- **Nodi’r** camau nesaf a gynlluniwyd.

| **QSIC 29/2021** | **Cynllun gweithredu Bron Brawf Cymru – Diweddariad am y Cynnydd a Wnaed** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Gynllun Gweithredu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Bron Brawf Cymru (Cyf 4.QSIC.160621), yn amlinellu’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn yr arolwg a gynhaliwyd gan AGIC.

Awgrymodd RH y byddai eglurhad pellach yn ddefnyddiol ynghylch yr argymhelliad i gynyddu’r safon ar gyfer pa mor amserol yw’r asesiadau.

**Nododd** y Pwyllgor y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

| **QSIC 30/2021** | **Ailddilysu Meddygol a Chynllunio Swyddi** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cyflwyno’r sefyllfa bresennol o ran Ailddilysu Meddygol a Chynllunio Swyddi i’r Pwyllgor (Cyf 5 QSIC.160621).

Eglurodd ED, ymhellach i'r diweddariad llafar a roddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fod adroddiad ysgrifenedig wedi'i gynnwys i roi diweddariad ar y sefyllfa bresennol ers y gofyniad i ailddechrau'r broses ail-ddilysu meddygol ar 1 Ebrill 2021. Amlinellodd yr heriau presennol gan gynnwys y diffyg arfarnwyr, sydd wedi effeithio ar y broses Ailddilysu Meddygol a Chynllunio Swyddi.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y prosesau ar waith i gefnogi ein gweithlu meddygol a deintyddol i wneud y gwaith cynllunio a gwerthuso fel sy'n ofynnol o dan y cytundeb Meddygol a Deintyddol.

| **QSIC 31/2021** | **Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Cyf 6 QSIC.160621).

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y rhesymeg ar gyfer gostwng lefel Risg 003. Eglurodd JL, ers i'r risg gael ei hychwanegu at y gofrestr risgiau, fod Cytundeb Masnach a Chydweithio wedi'i lunio rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd; daeth hwn i rym ar 1 Ionawr 2021. Daeth Rhaglen Baratoi Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Gadael yr UE i ben ar 31 Mawrth 2021 ac felly gellid gostwng y risg yn y gofrestr risgiau corfforaethol. Byddai unrhyw risg sy'n weddill yn cael ei rheoli ar lefel y gwasanaeth; fel oedi mewn perthynas ag allforion/mewnforion a materion yn ymwneud â phobl nad ydynt yn wybyddus eto.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli risgiau.

| **QSIC 32/2021** | **Adroddiad Diwedd Blwyddyn yr Ymgyrch Fewnol Brechlyn Rhag y Ffliw 2020/21** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Diwedd Blwyddyn yr Ymgyrch Fewnol Brechlyn Rhag y Ffliw 2020/21 (Cyf 7 a 7b QSIC.140421). Amlygodd BG yr hyn a ganlyn o'r adroddiad:

- Er gwaethaf heriau yn sgil Covid-19, roedd 60.1% o'r holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a 62.7% o'r holl staff rheng flaen wedi cael y brechlyn rhag y ffliw, a oedd yn gadarnhaol o ystyried bod ein staff yn gweithio o bell.
- Roedd y nifer ychydig yn llai na'r targed o 75% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru – mae'n debygol bod hyn wedi digwydd am ei bod yn fwy heriol darparu'r brechlyn i staff sy'n gweithio o adref;
- Cyflwynwyd system trefnu apwyntiad ar-lein a bydd y system hon yn cael ei defnyddio mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol; a
- Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer ymgyrch 2021/22 ym mis Mai, ac roedd disgwyl i'r canllawiau cenedlaethol gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Diolchodd KE i BG am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch yr adroddiad.

**Eitemau i'w Cymeradwyo**

| QSIC 33/2021 | Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ansawdd a Gwella (Blwyddyn 1) |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun i Weithredu'r Strategaeth Ansawdd a Gwella (Blwyddyn 1) (Cyf 8 QSIC.160621). Eglurodd RBW fod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r Strategaeth ym mis Mai a'i bod yn strategaeth alluogi er mwyn cefnogi'r broses o greu amodau i ansawdd a gwelliant ffynnu o fewn y Sefydliad. Byddai'r cynllun gweithredu dros dair blynedd yn cael ei fonitro drwy adolygiadau ac asesiadau a byddai angen ymrwymiad y Bwrdd, y Weithrediaeth a'r uwch arweinwyr ar ei gyfer, ochr yn ochr â chefnogaeth gan Gwelliant Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- Ynghylch y broses werthuso, holodd y Pwyllgor sut y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y gwaith gweithredu ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3. Cynghorodd RBW y byddai'r gwaith gwerthuso yn parhau, ac y byddai'r gwaith gweithredu'n cael ei oruchwylio gan fwrdd y rhaglen.
- Awgrymwyd y dylid cynnwys trosolwg o sut y byddai'r sefydliad yn arddangos y gwelliant fesul cam mewn blynyddoedd i ddod yn y cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd KE i RBW a WJ am y Cynllun Gweithredu.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Cynllun Gweithredu (Blwyddyn 1), ar gyfer y Strategaeth Ansawdd a Gwella.

| QSIC 34/2021 | Cylch Gorchwyl – y Grŵp Iechyd a Diogelwch |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor eitemau'r Cylch Gorchwyl (Cyf 9a a 9b QSIC.160621). Darparodd CO drosolwg o'r Cylch Gorchwyl, gan amlygu'r dulliau gwahanol o weithio a gafwyd yn ystod y pandemig.

Gofynnodd SW a ellid diwygio'r cyfeiriad at gynrychiolydd ochr y staff o fewn y cylch gorchwyl o 'Staff side Safety Committee representative' i 'Staff Side Committee representative'. Nododd CO y newid hwn.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo**'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Grŵp Iechyd a Diogelwch, gan gofnodi'r newid bach y cyfeiriwyd ato uchod;
- Cymryd **sicrwydd** bod y mesurau llywodraethu a gweithredol priodol ar waith i sicrhau bod Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn ffordd effeithiol; a
- **Nodi** y byddai'r cylch gorchwyl yn parhau i gael ei adolygu yn ôl y gofyn wrth i'r sefyllfa newid yn sgil y pandemig COVID-19.

| | |
|---|---|
| **QSIC 35/2021** | **Y Gofrestr Risgiau Strategol** |

Derbyniodd y Pwyllgor bapurau'r Gofrestr Risgiau Strategol (Cyf 10a, 10b a 10c QSIC 160621). Nododd LB, ers cyhoeddi'r adroddiad, fod diweddariadau pellach wedi dod i law yn ymwneud â Risg Strategol 3, a fyddai'n cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.
**Camau Gweithredu: LB**

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Ystyried** y diweddariadau a ddarparwyd ynghylch y Gofrestr Risgiau Strategol
- **Cymeradwyo'r** ceisiadau i newid y dyddiadau terfyn (Tabl 1); a
- **Chymeradwyo'r** ceisiadau i gau'r camau gweithredu (Tabl 2).

| | |
|---|---|
| **QSIC 36/2021** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod** |

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021 a 7 Mai 2021, a'r Cofnod o Gamau Gweithredu (Cyf 4.7 QSIC.140421).

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021 a 7 Mai fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo** cau'r camau gweithredu ar y cofnod o gamau gweithredu.
- **Nodi** nad oedd unrhyw faterion yn codi.

| | |
|---|---|
| **QSIC 37/2021** | **Cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol 2021/22** |

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol 2021/22 (Cyf 12 a 12b QSIC 160621).

Holodd y Pwyllgor a oedd yr archwiliadau arfaethedig wedi'u hadolygu mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen gan y cyfarwyddiaethau. Cadarnhaodd RBW fod yr archwiliadau wedi'u cyflwyno gan y cyfarwyddiaethau ac, felly, roedd y gofynion o ran adnoddau yn briodol.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gynnwys y Cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol ar gyfer 2021/22

| | |
|---|---|
| **QSIC 38/2021** | **Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2020/21** |

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau (Cyf. 13, 13b QSIC 160621). Cyflwynodd BG yr adroddiad ac amlygodd y meysydd a ganlyn:

- Llwyddiant yr ymgyrch fewnol ar frechlyn rhag y ffliw a darparu'r ymgyrch fewnol ar frechlyn Covid-19;

- Y cydweithio â'r Is-adran Sgrinio i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion fel rhan o'r broses o ailddechrau'r Gwasanaethau Sgrinio;
- Y gwaith parhaus gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch i sicrhau mannau gweithio sy'n ddiogel rhag Covid ar gyfer yr holl staff; datblygwyd dangosyddion dangosfyrddau ar gyfer rheoli heintiau o fewn lleoliadau clinigol ar gyfer 2021/22 a bydd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cynnal rhaglen beilot ar gyfer system archwilio electronig;
- Byddai'r gwaith o gydgysylltu'r brechlyn ffliw a'r brechlyn atgyfnerthu ar gyfer Covid-19 yn dechrau pan fyddai'r canllawiau'n dod i law ym mis Gorffennaf.

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Pwyllgor Adroddiad Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2020/21.

| **QSIC 39/2021** | **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu 2020/21** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu (Cyf 14a a 14b QSIC.160621).

Nododd RBW y newid i'w wneud ar sleid 4, lle dylai'r pwynt bwled diwethaf ddarllen:
*"The Business Executive Team meeting receive reports by exception, whilst the Quality, Safety and Improvement Committee receive assurance by exception **and** in the form of an Annual Report"*

Manteisiodd RBW ar y cyfle i ddiolch i Ian Smith, y cyn arweinydd diogelu a oedd wedi ymddeol.

Nododd RBW y bwriad i ymgysylltu ymhellach â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ail-gadarnhau aelodaeth gyfatebol fan leiaf. Gallai hyn roi cyfle i roi rhagor o sicrwydd i'r byrddau rhanbarthol.

Nododd y Pwyllgor fod y lefelau cydymffurfio ar gyfer yr Hyfforddiant Diogelwch yn isel ac y dylid eu monitro. Nodwyd bod yr hyfforddiant hwn wedi'i oedi yn ystod y pandemig ond ei fod bellach wedi ailddechrau gan ddefnyddio dulliau hyfforddi ar-lein/rhithwir. Roedd y lefelau cydymffurfio yn cynyddu, ond roedd angen eu monitro i sicrhau gwelliant.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2020/21, gan nodi'r newid bach i sleid 4, a chymerodd **sicrwydd** ynghylch sut y mae'r sefydliad wedi cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu yn ystod y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

## Eitemau i'w Nodi

| **QSIC 40/2021** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith (Cyf 15 QSIC 160621).

| **QSIC 41/2021** | **Diweddariad Hanner Blynyddol ar Bolisi** |
|---|---|
| Nododd y Pwyllgor y Diweddariad Hanner Blynyddol ar Bolisi (Cyf 16 QSIC.160621). | |
| **QSIC 42/2021** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| **QSIC 42.1/2021** | **Unrhyw Fater Arall** |
| Nid oedd unrhyw fater arall. | |
| **QSIC 42.2/2021** | **Adborth y Pwyllgor** |
| Cytunwyd y byddai adborth am y cyfarfod yn cael ei geisio drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod. | |
| **QSIC 42.3/2021** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| Dydd Iau 19 Awst 2021. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 11:55* | |